OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1353

# Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005

**Arbediad a darpariaeth drosiannol**

**3.**—(1) Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 31 Mai 2005 ac sy'n dod i ben ar y dyddiad y mae adrannau 121 i 124 yn dod i rym yn llawn, bydd paragraff 4(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 yn effeithiol fel petai'r geiriau "persons who are participating tenants immediately before a binding contract is entered into in pursuance of the initial notice" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "participating tenants".

(2) Ni fydd adran 126 yn effeithiol o ran —

(a) hysbysiadau a roddir cyn 31 Mai 2005 o dan adran 13 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993; neu

(b) ceisiadau a wneir cyn 31 Mai 2005 o dan adran 26 o'r Ddeddf honno.

(3) Ni fydd adran 168 yn effeithiol o ran hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 146(1) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925(**1**) cyn 31 Mai 2005 ynghylch torri unrhyw gyfamod neu amod gan denant.

(4) Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan adran 170 yn effeithiol o ran hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 146(1) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 cyn 31 Mai 2005.

(**1**) 1925 p.20.